Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 296 (Cy. 74)

# TRYDAN, CYMRU

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau am gydsyniad o dan adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29) ("Deddf 1989") i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu alltraeth.

Gweinidogion Cymru, o 1 Ebrill 2019, yw'r awdurdod priodol mewn perthynas â cheisiadau o dan adrannau 36 a 36A o Ddeddf 1989 sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu yn nyfroedd Cymru sydd â gallu cynhyrchu nad yw'n fwy na 350 megawat.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 296 (Cy. 74)

# TRYDAN, CYMRU

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019

*Gwnaed* *18 Chwefror 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *20 Chwefror 2019*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 36(8A) a 60 o Ddeddf Trydan 1989(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ffioedd) (Cymru) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cais" ("*application*") yw cais i Weinidogion Cymru o dan adran 36(**2**) o Ddeddf Trydan 1989 am gydsyniad i adeiladu, estyn neu weithredu gorsaf gynhyrchu alltraeth, ynghyd ag unrhyw gais o dan adran 36A(**3**) o'r Ddeddf honno am ddatganiad sy'n ymwneud â hawliau mordwyo sy'n cael ei wneud gyda'r cais o dan adran 36; ac

(**1**) 1989 p. 29. *Gweler* adran 36(10) am y diffiniad o "appropriate authority". Mewnosodwyd adran 36(8A) gan baragraff 47 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ("Deddf 2017"). Mae diwygiadau i adran 60 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 36 gan adran 93(1) a (3) o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20) ("Deddf 2004"), paragraffau 31 a 32 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), adran 12(7) ac (8) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) ("Deddf 2009"), adran 78 o Ddeddf Ynni 2016 (p. 20) ac adran 39(7) i (11) o Ddeddf 2017 a pharagraff 47 o Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 36 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Mewnosodwyd adran 36A gan adran 99 o Ddeddf 2004 ac fe'i diwygiwyd gan adran 12(7) ac (8) o Ddeddf 2009 ac adran 40(1) i (5) o Ddeddf 2017.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr “colofn 3” (“*column 3*”) yw colofn 3 o’r tabl yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

### Ffioedd

**2.**—(1) Rhaid i’r ceisydd dalu ffi i Weinidogion Cymru am wneud cais.

(2) Y ffi yw cyfanswm—

(a) y ffi gychwynnol yn unol â rheoliad 3;

(b) y ffi ar gyfer archwilio cais a gyfrifir yn unol â rheoliad 4; ac

(c) y ffi ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch cais a gyfrifir yn unol â rheoliad 5.

### Y ffi gychwynnol

**3.**—(1) Pan fo cais yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru, rhaid talu ffi gychwynnol i Weinidogion Cymru (“y ffi gychwynnol”).

(2) Y ffi gychwynnol yw’r swm a nodir yn rhes 1 o golofn 3.

(3) Rhaid i’r ffi gychwynnol fynd gyda’r cais.

### Y ffi archwilio

**4.**—(1) Rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru am archwilio cais (“y ffi archwilio”).

(2) Mae’r ffi archwilio i’w gyfrifo fel cyfanswm—

(a) nifer y diwrnodau neu ran o ddiwrnod a dreulir yn archwilio cais wedi ei luosi â—

(i) pan fo cais yn cael ei archwilio drwy wrandawiad neu ymchwiliad, y gyfradd ddyddiol a nodir yn rhes 2 o golofn 3;

(ii) ym mhob achos arall, y gyfradd ddyddiol a nodir yn rhes 3 o golofn 3; a

(b) unrhyw gostau ac alldaliadau yr eir iddynt mewn gwirionedd gan Weinidogion Cymru neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad ag archwilio’r cais.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, roi amcangyfrif ysgrifenedig i’r ceisydd o nifer y diwrnodau y disgwylir eu cymryd i archwilio’r cais.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio’r amcangyfrif y cyfeirir ato ym mharagraff (3) ar unrhyw adeg.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru anfonebu’r ceisydd ar gyfnodau rhesymol mewn cysylltiad â nifer y dyddiau a dreulir mewn gwirionedd yn archwilio’r cais ac unrhyw gostau yr eir iddynt wrth archwilio’r cais.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gael unrhyw ffi sy’n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 21 o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad yr anfonir yr anfoneb berthnasol.

(7) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (6), nid oes angen i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais hyd nes i Weinidogion Cymru gael y taliad.

(8) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau pan fydd y cyfnod a bennir ym mharagraff (6) yn dod i ben, bernir bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

(9) Mae'r ffi archwilio yn parhau i fod yn daladwy er gwaethaf tynnu'r cais yn ôl.

(10) Yn y rheoliad hwn, bernir bod "diwrnod" yn 7.4 awr.

**Y ffi benderfynu**

**5.**—(1) Rhaid talu ffi i Weinidogion Cymru am benderfyniad ynghylch cais ("y ffi benderfynu").

(2) Y ffi benderfynu yw cyfanswm—

(a) ffi benodedig sef y swm a nodir yn rhes 4 o golofn 3; a

(b) unrhyw gostau ac alldaliadau yr eir iddynt mewn gwirionedd gan Weinidogion Cymru neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad ynghylch y cais.

(3) Mae'r costau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) yn cynnwys unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol neu alldaliadau eraill yr eir iddynt neu a delir gan Weinidogion Cymru neu ar ran Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad ynghylch cais.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru anfonebu'r ceisydd—

(a) ar gyfer y ffi benodedig ar unrhyw adeg ar ôl gorffen archwilio'r cais, a

(b) mewn cysylltiad â chostau ac alldaliadau ar gyfnodau rhesymol.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gael unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad yr anfonir yr anfoneb berthnasol.

(6) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff (5), nid oes angen i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais hyd nes iddynt gael y taliad.

(7) Os bydd y ceisydd yn methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o dan y rheoliad hwn o fewn y cyfnod o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

12 wythnos sy'n dechrau pan fydd y cyfnod a bennir ym mharagraff (5) yn dod i ben, bernir bod y cais wedi ei dynnu'n ôl.

(8) Mae'r ffi benderfynu yn parhau i fod yn daladwy er gwaethaf tynnu'r cais yn ôl.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
18 Chwefror 2019

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliadau 3(2), 4(2)(a)(i), 4(2)(a)(ii) a 5(2)(a)

## Ffioedd penodedig a chyfraddau dyddiol

**Y Tabl**

| *Colofn 1*<br>*Y Rheoliad* | *Colofn 2*<br>*Y Pwnc* | *Colofn 3*<br>*Y Ffi* |
|---|---|---|
| 3(2) | Y ffi gychwynnol | £15,350 |
| 4(2)(a)(i) | Y gyfradd ddyddiol pan fo cais yn cael ei archwilio mewn gwrandawiad neu ymchwiliad | £920 heb gynnwys treth ar werth os oes peth |
| 4(2)(a)(ii) | Y gyfradd ddyddiol ym mhob achos arall | £870 heb gynnwys treth ar werth os oes peth |
| 5(2)(a) | Y ffi benderfynu | £14,700 |